



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYFARFOD

Cyfarfod y Comisiwn Gwaith Teg: 15 Ionawr 2019

Nodyn ar gyfer y wefan am gyfarfod y Comisiwn Gwaith Teg ar 15 Ionawr 2019.

Cyhoeddwyd gyntaf: 15 Ionawr 2019

Diweddarwyd ddiwethaf: 15 Ionawr 2019

Gwnaeth y Comisiynwyr adolygu gyfarfodydd ymgysylltu diweddar a thrafod pa randdeiliaid y dylid cysylltu â nhw i drafod y dystiolaeth ymhellach neu i ymdrin â materion nad ydynt wedi derbyn sylw.

Ni fyddai amser yn caniatáu trafodaethau dilynol heblaw i ystyried tystiolaeth a fyddai'n ychwanegu gwerth neu i brofi neu egluro tystiolaeth, yn hytrach nag ymchwilio i themâu newydd.

Trafododd y Comisiwn rai themâu allweddol a nodi rhai materion a oedd yn gyffredin yn y dystiolaeth drwyddi draw, a materion a oedd yn benodol i sector.

Trafodwyd cynigion maniffesto'r Prif Weinidog newydd mewn perthynas â gwaith teg. Gwnaeth y Comisiynwyr ystyried sut y gallent gael eu hadlewyrchu yn eu hadroddiad sydd ar y gweill.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cyfarfod-y-comisiwn-gwaith-teg-15-ionawr-2019-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Nododd y comisiynwyr y cyd-destun ehangach sy'n llywio eu gwaith, gan gynnwys:

- y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd
- cyfeiriad polisi Llywodraeth y DU ar gyfer cyfraith ac ymarfer cyflogaeth
- datblygiadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer datganoli
- ystyriaethau/heriau/dylanwadau rhyngwladol

Trafododd y Comisiynwyr fanylion yr hyn y byddent yn ei gynnwys yn eu hadroddiad, ei fformat a natur yr argymhellion. Cynhaliwyd trafodaeth am ddull graddol ar gyfer blaenoriaethu yn y tymor byr a'r tymor hwy.

Ystyriwyd y rhanddeiliaid yn y rhwydwaith gwaith teg y byddai angen gweithio gyda nhw i weithredu gwaith teg, a'r strwythurau a allai fod o gymorth wrth gyflawni hyn.

Gwnaeth y Comisiwn gydnabod nad oedd yn gallu cynnwys popeth o fewn ei amserlen gyfyngedig. Byddai angen gwneud rhagor o waith ar rai argymhellion i gwmpasu ac adeiladu'r sail dystiolaeth ar gyfer ffordd benodol o weithredu.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cyfarfod-y-comisiwn-gwaith-teg-15-ionawr-2019-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Cyfarfod y Comisiwn Gwaith Teg: 15 Ionawr 2019](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/cyfarfod-y-comisiwn-gwaith-teg-15-ionawr-2019-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cyfarfod-y-comisiwn-gwaith-teg-15-ionawr-2019-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).